154 *Dyfalbarhawn*
(Mathew 24:13)

1. Rhaid dyfalbarhau;
   Ond sut parhawn fel Iesu Grist?
   Hoelio'i sylw wnaeth
   Ar obaith gogoneddus ddydd.
   Ystyriodd, myfyriodd,
   A chadarn oedd ei ffydd.

(*CYTGAN*)
Â'n gilydd daliwn ati.
Yn gadarn awn ymlaen.
Jehofa sy'n ein caru;
Yn ffyddlon, cerdded wnawn hyd ben y daith.

2. Gofid ddaw i'n rhan,
   Ac yn ein trallod, wylo wnawn.
   Â phob cam ymlaen,
   At y baradwys agosawn.
   Hyfrydwch gwir heddwch
   Yw'n gwobr, os parhawn.
   (*Cytgan*)

3. Cadarn yn ein ffydd
   Parhawn yn ddewr i ddal ein tir.
   Agos y mae'r dydd
   Pan ddaw addewid Duw yn wir;
   Llawenydd byd newydd
   Gawn weled cyn bo hir.
   (*Cytgan*)

(Gweler hefyd Act. 20:19, 20; Iago 1:12; 1 Pedr 4:12-14.)

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania